

**Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin**

**Dydd Iau 21<sup>ain</sup> Awst 2014**

**a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin, Tre Ioan am 6.00pm**

**Yn bresennol:**

Jonathan Tudor (JT) - Ysgrifennydd

**Yr Aelodau:**

Mark Hadley (MH) - Is-gadeirydd

Caroline Evans (CE)

Glyn Evans (GE)

Keith Morgan (KM)

Eric Davies (ED)

Jillie Gardiner (JG)

Chris Rankin (CR)

David Stacey (DS)

**Ymgynghorwyr/Sylwedyddion/Siaradwyr/Y Cyhoedd**

Geoff Williams (GW) – Y Cerddwyr

Ceri Daugherty (CD) – CNC

Lindsey Curtis (LC) - Sustrans

**Ymddiheuriadau (Aelodau)**

Karen Burch (KB) – Cadeirydd

Llew Thomas (LT)

Rosemary Jones (RJ)

**Ymddiheuriadau (Ymgynghorwyr)**

Y Cyng. Deryk Cundy (DC) - CSC -

Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau

Rory Dickinson (RD) – CSC

Rheolwr yr Arfordir a Chefn Gwlad

Y Cyng. Meryl Gravell - CSC - Aelod o'r

Bwrdd Gweithredol

Phil Stone – CNC

Mike Scott-Archer - FfMLI PCBB

	<b>CAM GWEITHREDU</b>
<b>Eitem 1 Croeso</b> – Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod.	
<b>Eitem 2 Ymddiheuriadau</b> - Cyflwynwyd ymddiheuriadau ac fe'u cofnodwyd.	
<b>Eitem 3 Sustrans Cymru: Cyflwyniad - Lindsey Curtis, Rheolwr Rhanbarthol y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol</b>  Cyflwynodd LC ei hun gan ddweud mai hi oedd Rheolwr Rhanbarthol y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (Sustrans). Dywedodd LC mai ei rôl hi oedd hybu a chynnal a chadw'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn y rhanbarth a hyrwyddo dylunio'n dda. Mae arolygon wedi dangos mai dim ond 19% o ddefnyddwyr y rhwydwaith oedd yn gwybod am Sustrans. Holodd JG ynghylch mynediad i farchogion. Eglurodd LC fod Sustrans yn elusen sydd â'r prif nod o alluogi pobl i deithio ar droed, ar feic neu drwy drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer mwy o'n teithiau pob dydd. Nod Sustrans yw bod 4 o bob 5 taith o dan 5 milltir yn cael eu gwneud ar droed, ar feic neu drwy drafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2020. Mae hyn yn cyfrannu at yr agenda iechyd a lles ac o ran yr amgylchedd ac mae'n galluogi pobl i	

arbed arian drwy beidio â defnyddio eu ceir.

Hefyd mae Sustrans yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod y strydoedd o gwmpas ysgolion yn fwy addas i blant.

Mae Sustrans yn gweithio mewn 3 ffordd:

1. Gwella ein strydoedd, ein mannau a'n hamgylchedd
2. Cynyddu sgiliau a meithrin hyder
3. Cael dylanwad, e.e. ar Lywodraeth Cymru yn ogystal â chynghorau lleol. Roedd hyn wedi cyfrannu at y Ddeddf Teithio Llesol.

Mae prosiect *Bike It* Sustrans yn gweithio mewn ysgolion i ddysgu sgiliau beicio ac i annog plant i feicio'n ofalus i'r ysgol: <http://www.betterbybike.info/schools-youth/youth-projects/bike-it-project>

Holodd GW a fyddai cyfleusterau ar gyfer storio/cloi beiciau yn yr ysgol newydd yn Llandeilo. Roedd LC yn credu bod lle storio beiciau yn cael ei ddarparu.

Yn ogystal mae Sustrans yn cynhyrchu amrywiaeth o daflenni rhad ac am ddim sy'n hyrwyddo llwybrau - cafodd y daflen am Swiss Valley ei hadargraffu'n ddiweddar i gyd-fynd â'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli. Mae hefyd yn cynhyrchu llyfrynnau ynghylch llwybrau di-draffig: <http://www.sustrans.org.uk/wales/national-cycle-network/free-leaflets-and-maps>

Dywedodd LC fod Sustrans yn falch o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 sy'n ceisio darparu mwy o wybodaeth am lwybrau diogel i'r cyhoedd ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gynllunio gwelliannau a llwybrau newydd. Bellach bydd yn rhaid ystyried cerddwyr a beicwyr fel rhan o'r broses gynllunio. Bydd cyflwyno'r ddeddfwriaeth yn cael ei roi ar waith yn ystod y blynnyddoedd nesaf. Y cam cyntaf yw mapio'r llwybrau presennol. Bydd dyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo cerdded a beicio.

Dywedodd CD fod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) hefyd yn bwriadu hyrwyddo mynediad ar gyfer defnyddwyr eraill gan gynnwys marchogion. Cafwyd trafodaeth yn dilyn hyn am wynebau priodol i alluogi llwybrau i gael eu defnyddio gan amrywiaeth o ddefnyddwyr lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.

Sustrans sy'n cynnal a chadw ei lwybrau ei hun e.e. Llwybr Swiss Valley. Fodd bynnag, dim ond 2 weithiwr cynnal a chadw sydd ganddo ar gyfer De a De-orllewin Cymru i gyd. Yn ddiweddar mae rhai fframiau 'A' sefydlog wedi cael eu gwaredu fel bod modd defnyddio cadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn ar y llwybrau. Mae hyn hefyd wedi rhoi mynediad i farchogion ond yn anffodus nid yw rhai tîrfeddianwyr am gael marchogion ar eu tir. Dywedodd LC fod cynlluniau ar waith i ddatblygu Llwybr 4 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn ardal Pen-bre a fyddai'n mynd am 10 milltir ar ffurf taith gron.

Gorffennodd LC ei chyflwyniad a diolchwyd iddi gan MH.

**Eitem 4 Ystyried/Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod ar 22ain Mai 2014**

<p>Cafodd y cofnodion eu gwirio a derbyniwyd eu bod yn gywir yn amodol ar un mân newid.</p>	
<p><b>Eitem 5 Materion yn codi o Gofnodion y Cyfarfod ar 22<sup>ain</sup> Mai 2014</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Prosiect Cysylltu Fforest Brechfa</b> – Roedd y dewis lwybr newydd gael ei gyhoeddi.</li> <li>• <b>Platfform rhannu Google</b> – Roedd JG wedi sefydlu ‘gyriant a rennir’ ar-lein y gallai'r Fforwm Mynediad Lleol ei ddefnyddio ond gofynnwyd iddi ailddosbarthu gwybodaeth amdano.</li> <li>• <b>Cynghorau Tref a Chymuned</b> - Dywedodd GW fod grwpiau'r Cerddwyr yn ystyried sut y gallent sefydlu cysylltiad â Chynghorau Tref a Chymuned a'r trefi/pentrefi Croeso i Gerddwyr sef Llandeilo a Llanymddyfri.</li> <li>• <b>Adroddiadau'r Parcmyr</b> – Roedd Alan Warner, y Rheolwr Gweithrediadau Cefn Gwlad, am roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am waith cynnal a chadw a gwella.</li> <li>• <b>Llwybr Beicio Dyffryn Aman</b> – Roedd e-bost gan Nigel Skinner, o Is-adran Trafnidiaeth a Pheirianneg y Cyngor, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf.</li> <li>• <b>Strategaeth Teithio Llesol/Cerdded a Beicio</b> – Roedd e-bost gan Simon Charles, o Adain Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd y Cyngor, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf.</li> </ul>	
<p><b>Eitem 6 Strategaeth Mynd â Chŵn am Dro Cyfoeth Naturiol Cymru</b></p> <p>Roedd JT wedi dosbarthu'r ddogfen ymgynghori gan CNC ynghylch ei Strategaeth Mynd â Chŵn am Dro. Roedd angen i'r Fforwm gyflwyno ymateb erbyn 1<sup>af</sup> Hydref 2014. Dylai sylwadau gael eu hanfon at JT er mwyn iddo eu casglu a'u cyflwyno ar ran y Fforwm.</p> <p>Lleisiodd MH bryderon Cadeirydd y Fforwm, sef KB, ynghylch cŵn rhydd sy'n cael eu hymarfer fel haid gan achosi problemau i farchogion. Bu digwyddiad yn ddiweddar ym Mharc Coetir y Mynydd Mawr. Roedd KB o'r farn y dylai unrhyw gyngor ynghylch mynd â chŵn am dro roi sylw i'r mater hwn.</p>	<p><b>PAWB</b></p>
<p><b>Eitem 7 Cynhadledd Cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol – Adroddiad - JT</b></p> <p>Dywedodd JT fod John Griffiths, AC, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (ar y pryd), wedi rhoi anerchiad gan ddweud, yn sgil yr Adolygiad o Ddeddfwriaeth Mynediad a Hamdden Awyr Agored, na fyddai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno ar unwaith ond y byddai Papur Gwyrdd yn cael ei gyhoeddi yn amlinellu'r newidiadau posibl. Roedd Llwybr Arfordir Cymru wedi cyfrannu £32 biliwn at economi Cymru mewn 2 flynedd. Roedd cyllid ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy wedi gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn ystod dirwasgiad. Roedd Fforymau Mynediad Lleol yn ymgynghorwyr hanfodol i Lywodraeth Cymru/CNC ac awdurdodau lleol. Roedd Glastir yn ceisio targedu adnoddau ar lwybrau a fyddai'n cael eu defnyddio.</p> <p>Mewn sesiwn holi ac ateb holwyd y Gweinidog ynghylch nifer o faterion:</p> <p>Gofynnodd JT a oedd y Gweinidog, yn dilyn yr adolygiad diweddar, yn cydnabod bod angen newid deddfwriaethol parhaol i wella cyfleoedd mynediad i dir a dŵr mewndirol ar gyfer pobl Cymru. Nododd JT fod y dull cytundeb mynediad gwirfoddol o wella mynediad i ddŵr mewndirol wedi methu fel polisi ond eto roedd yn ymddangos bod y Gweinidog yn parhau i</p>	

arddel y dull hwnnw. Yn ogystal gofynnodd JT a oedd y Gweinidog yn derbyn, er bod ymgynghori â rhanddeiliaid yn rhan bwysig o'r broses ddeddfwriaethol, fod perygl bod y rhai pwerus a threfnus iawn yn gallu herwgipio'r broses honno ac mewn gwirionedd danseilio newid ystyrion er anfantais mwyafrif mud Cymru na fydd, yn ôl pob tebyg, yn ymwybodol bod ymgynghoriad arbenigol yn cael ei gynnal.

Hefyd gofynnwyd cwestiynau ynghylch Trawsgydymffurfio o dan Gynllun y Taliad Sengl i annog tirlfeddianwyr/rheolwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus. Mynegwyd pryder am gyllid yn y dyfodol, mynediad i farchogion a mynediad i gerbydau modur.

Roedd sesiynau eraill yn ystod y dydd yn cynnwys Adolygiad o Arferion Gweithio Fforymau Mynediad Lleol, cynllun gan CNC i adolygu a hyrwyddo llwybrau hwy (sy'n cymryd diwrnod neu fwy) i gyd-fynd â Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol, a'r wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect 'Dewch Allan'.

<p><b>Eitem 8 Llwybr Illtud Sant – JT</b></p> <p>Soniodd JT am fenter gan Gerddwyr Abertawe i adolygu ac adfywio Llwybr Sant Illtud a gosod arwyddion newydd ar ei gyfer. Mae hwn yn llwybr hir o Ben-bre i Abaty Margam. Roedd KB wedi gofyn i Richard Beale o Gerddwyr Abertawe am fwy o wybodaeth ynghylch sut y byddai hyn yn cael ei gyllido. Ar hyn o bryd, roedd Richard yn ceisio cael cefnogaeth i'r syniad mewn egwyddor ac roedd yn ceisio barn awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe cyn rhoi gwybodaeth yn ôl i CNC.</p>	
<p><b>Eitem 9 Y Wybodaeth Gyffredinol Ddiweddaraf – Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin - Cynigion Trawsgydymffurfio Llywodraeth Cymru - JT</b></p> <p>Bu JT yn amlinellu'r cynigion mewn ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yr oedd wedi ymateb iddo. Roeddent yn cynnwys cynnig y dylai hawliau tramwy cyhoeddus gael eu cynnwys o dan drawsgydymffurfio, fel sy'n digwydd yn Lloegr lle mae'n rhaid cydymffurfio â'r gofyniad i gadw tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC8). Un farn yw y dylid rhoi hyn ar waith gan fod llawer o dirfeddianwyr/ffermwyr yn derbyn arian cyhoeddus drwy'r cynllun hwn ac nid oedd gofyniad i gadw hawliau tramwy cyhoeddus ar agor ac yn ddirwystr yn afresymol yn y cyswllt hwnnw. Fodd bynnag, roedd barn arall gan rai tirfeddianwyr ac undebau ffermwyr na ddylai gofyniad o'r fath fod yn rhan o Gynllun Amaethyddol.</p>	
<p><b>Eitem 10 Unrhyw Fater Arall</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Taith Sirol Bronwydd a Llannewydd – gofynnodd GE i JT wirio statws rhai o'r llwybrau.</li> </ul>	<p><b>JT</b></p>
<p><b>Eitem 11 Dyddiad/Lleoliad y Cyfarfodydd Nesaf</b></p> <p>Mae pob cyfarfod yn cael ei gynnal ar ddydd Iau am 6pm yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin fel a ganlyn:</p> <p><b>20<sup>fed</sup> Tachwedd 2014</b></p>	